

Canolfan Cymuned Llangennech

Yn Gwasanaethu'r Gymuned

Croeso i

Wefan CANOLFAN CYMUNED LLANGENNECH

Pwyllgor Canolfan Cymuned Llangennech sydd yn berchen ar ac yn rheoli'r wefan hon. Lluniwyd hi er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth am y Ganolfan, megis pa fath o gyfleusterau a gwasanaethau sydd ar gael ac am ba weithgareddau sydd yn mynd yn eu blaen.


Defnyddiwch y dolennau cyswllt uchod i ganfod eich ffordd o gwmpas y safle os gwelwch yn dda.



Lleolir y Ganolfan mewn safle cyfleus yng nghanol y pentref, tu ôl i Heol Hendre ac yn ymyl Tafarn yr Hen Bont. Mae llefydd parcio i 38 o geir yn gysylltiedig â'r Ganolfan, gan gynnwys llefydd ychwanegol ar gyfer pobl anabl o flaen yr adeilad.

Mae'r lleoliad gwledig wedi ysbrydoli aelodau o'r pwyllgor i sefydlu prosiect Gardd Gymunedol. Cychwynwyd ar y gwaith eisoes drwy blannu bylbiau, gyda disgyblion o'r ysgolion lleol a phentrefwyr yn cymryd rhan.

Mae Llyfrgell Gangen Llangennech nawr wedi'i lleoli o fewn y Ganolfan. Mae ystod o gyfleusterau ar gael ynddi, gan gynnwys hanner miliwn o lyfrau, cyfleusterau rhyngwryd a phrosesu geiriau di-dâl a gwybodaeth gymunedol leol.



Diolch ichi am eich ymweliad a'n gwefan. Mae croeso ichi ymweld â hi yn rheolaidd gan ein bod yn diweddarau'r manylion yn ddyddiol. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran cynnwys y wefan rhowch wybod inni os gwelwch yn dda.

This is our new web site. We have created these pages using the Squarezone [SpeedEweb](#) system

